# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-03-10 : Papur 1""

### Blaenoriaethu cydraddoldebau yn yr Agenda Cymru'n Un

### Crynodeb / Argymhellion

1. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r Prif Weinidog ar y pryd ar 3 Chwefror 2009 lle cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnal cyfarfod blynyddol ar flaenoriaethu cydraddoldebau yn yr Agenda Cymru'n Un.

2. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r agwedd gyffredinol tuag at gyflawni'r ymrwymiadau cyfle cyfartal, yn cynnwys manylion am y cynnydd mewn meysydd penodol.

### Cefndir

3. Mae hybu cyfle cyfartal i bawb wrth inni weithredu ein swyddogaethau yn ymrwymiad yn Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ein hymrwymiad yw prif-ffrydio cydraddoldeb yn ein gwaith ar draws pob maes portffolio. Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn flynyddol yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. Caiff y 10fed Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (2008-09) ei gyhoeddi ddiwedd mis Ionawr 2010.

4. Mae ein hagwedd tuag at hybu cyfle cyfartal yn ymwneud â sicrhau bod Cymru'n lle gwell i bawb fyw, gweithio ac astudio ynddo, ni waeth beth yw eu cefndir, ac mae'n seiliedig ar gynhwysiant a thegwch. Rydym am i holl ddinasyddion Cymru allu cael gafael ar gyfleoedd megis addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus o safon. Golyga hynny bod rhaid deall cyfansoddiad ein poblogaeth ac amgyffred eu hanghenion yn wirioneddol.

5. Er mwyn helpu i roi cydraddoldeb wrth galon busnes Llywodraeth y Cynulliad: mae gennym dîm canolog sy'n darparu cefnogaeth ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; mae gennym Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ym mhob adran; rydym yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o'r dull o lunio polisi drwy eu hymgorffori yn y porth i bolisïau; ac rydym yn defnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i'n helpu i gyflawni polisïau cynhwysol.

### Cynllun Cydraddoldeb Sengl

6. Fel rhan o'n agenda flaengar, rydym wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n rhoi sylw i oed, anabledd, rhyw a thrawsrywedd, hil, crefydd neu gred/diffyg cred, a chyfeiriadedd rhywiol.

7. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ffordd allweddol o'n cynorthwyo i gadw'n hymrwymiad i'r weledigaeth a geir yn "Cymru'n Un" sef economi ddeinamig, gwell iechyd, ffordd o fyw o safon a chymunedau cynaliadwy mewn Cymru amrywiol a dwyieithog. Bydd hefyd yn gymorth i gadw'n hymrwymiad i gymdeithas deg a chyfiawn.

8. Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi canolbwyntio ar integreiddio egwyddorion cydraddoldeb, tegwch, parch ac urddas yng ngwaith beunyddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cynllun yn asesu effaith ein polisïau ar wahanol grwpiau ym mhoblogaeth Cymru a'r camau a gaiff eu cymryd i roi sylw i'r effaith honno.

9. Lansiwyd a chyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'r cynlluniau gweithredu ym mis Mawrth 2009. Bydd y cynllun ar waith am dair blynedd ac rydym wedi gwneud ymrwymiad i fonitro'r cynnydd bob chwe mis ac adolygu'r cynllun yn ffurfiol yn flynyddol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ddiwedd mis Ionawr 2010 ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng dechrau'r cynllun ym mis Ebrill 2009 a mis Medi 2009.

10. Mae Grŵp Cyflawni wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr allanol a mewnol. Swyddogaeth y grŵp hwn fydd goleuo proses ddatblygu'r cynllun ac adolygu'r cynnydd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyflawni ym mis Tachwedd 2009.

### Ymrwymiadau Cymru'n Un

11. Mae cydraddoldeb yn fater trawsbynciol ac mae dogfen Cymru'n Un yn cynnwys gweledigaeth o Gymru deg a chyfiawn, lle gall pob dinesydd benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain a llywio'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Ein huchelgais yw cael Cymru lle mae pawb yn cyrraedd ei lawn botensial, a lle nad oes unrhyw un yn byw mewn tlodi, lle na wahaniaethir yn eu herbyn, a lle nad oes ofn na cham-drin.

12. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar un agwedd benodol o fewn y rhaglen lywodraethu - **hybu cydraddoldeb**, sy'n cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

Byddwn yn gweithio i sicrhau llwyddiant y Corff Cydraddoldeb Sengl yng Nghymru, gan dynnu ar brofiad Gogledd Iwerddon o'r dull hwn.
Byddwn yn parhau ac yn ehangu ein cydweithrediad â'r Fforwm Rhyng-Grefyddol i hybu dealltwriaeth ar draws diwylliannau a chrefyddau ac i ddatblygu a lledaenu ymhellach y modelau arferion da a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n cydnabod ac yn parchu amrywiaeth yn ogystal â'r hyn sy'n gyffredin rhwng pobl.
Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o ymgysylltu â dinasyddion ac yn eu rhoi ar waith drwy ddulliau cyfranogol a bwriadol.

Byddwn yn gweithredu'r Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.
Byddwn yn mireinio ac yn gweithredu'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid, gan gynnwys yr argymhellion ynghylch buddiannau plant sydd ar ben eu hunain ac sy'n ceisio lloches.
Byddwn yn datblygu strategaeth i leihau troseddau casineb.

### Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

13. Mae swyddogion wedi parhau i feithrin perthynas adeiladol gyda'r un Corff Cydraddoldeb, sef y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ar lefel swyddogol, mae Pennaeth yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cyfarfod â Chyfarwyddwr Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru bob chwarter, a chaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynrychioli ar Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb Cymru sy'n cael ei gynnal gan y Comisiwn bob deufis.

14. Mae swyddogion yn cynnal deialog reolaidd ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth ar ddarnau allweddol o waith. Ar hyn o bryd, mae gwaith ar y gweill i lansio rhaglen gyllido ar y cyd i feithrin gallu mudiadau gwirfoddol bach.

15. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cyfarfod â Chyfarwyddwr Cymru a Chomisiynydd Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddwywaith y flwyddyn.

### Fforwm Cymunedau Ffydd

16. Byddyr Priff Weinidog yn ymgymryd â chadeiryddiaeth y Fforwm Cymunedau Ffydd, am y tro cyntaf, ar 24 Mawrth 2009. Mae'r Fforwm Cymunedau Ffydd yn cynnwys cynrychiolaeth aml-ffydd ac fe gaiff y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wahoddiad sefydlog i fynychu. Mae'r Fforwm yn enghraifft ardderchog o gydweithio i hybu cydraddoldeb, goddefgarwch a chynhwysiant. Byddwn yn rhannu arfer da yn eang mewn cysylltiad â hyn ac ar ein gwaith blaengar ym maes cydraddoldeb.

### Ymgysylltu â Dinasyddion

17. Gofynnodd Arolwg Byw yng Nghymru 2008 dros 7,500 o bobl am eu profiadau mewn cysylltiad â detholiad o wasanaethau cyhoeddus. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cyfran uchel iawn o'r ymatebwyr yn teimlo, wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, eu bod yn cael eu trin â pharch a bod staff yn gymwynasgar, ond mae lle i wella'r ffordd y mae rhai gwasanaethau cyhoeddus yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth.

### Y Strategaeth ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr

18. Cytunodd y Cabinet ar y strategaeth ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr 'Ar Lwybr Arall' ym mis Mehefin 2009. Lansiwyd y strategaeth ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr er mwyn ymgynghori arni rhwng 14 Medi 2009 a mis Ionawr 2010. Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid perthnasol, yn cynnwys digwyddiadau penodol ar gyfer aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol a luniwyd yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr. Cyfrannodd dros 100 o blant a phobl ifanc at y digwyddiadau hyn o bob cwr o Gymru.

19. Lansiwyd y Grant Adnewyddu a'r Grant ar gyfer Safleoedd Newydd i Sipsiwn a Theithwyr gan Dr Brian Gibbons, y cyn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ym mis Mawrth 2008. Y gyllideb a bennwyd ar gyfer y grantiau hyn yw £2.5 miliwn y flwyddyn. Diben y Grant Safleoedd Newydd yw galluogi Awdurdodau Lleol i sefydlu safleoedd parhaol newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Bydd y cylch ceisiadau ar gyfer y grant hwn yn dechrau'n gynnar yng ngwanwyn 2010. Nod y Grant Adnewyddu yw codi safon safleoedd Sipsiwn-Teithwyr a gwella safon byw yr holl drigolion.

20. Mae Canllawiau Arferion Da ar ddylunio safleoedd a rheoli safleoedd wedi cael eu llunio i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i ddatblygu a rheoli safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Lluniwyd y canllawiau drwy ymgynghori ag Awdurdodau Lleol, rheolwyr safle, y sector gwirfoddol a'r gymuned o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

### Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid

21. Lansiwyd y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid gan y cyn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar 14 Mehefin 2008. Wrth gefn y strategaeth, ceir Cynllun Gweithredu. Caiff y cynllun ei ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a drwy roi'r camau gweithredu yn y strategaeth ar waith mewn partneriaeth. Drwy'r cynllun, bydd mudiadau partner yn ymrwymo i gyflenwi gwasanaethau mewn cysylltiad â chyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid.

### Lleihau Troseddau Casineb

22. Lansiwyd Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru ar 3 Rhagfyr 2009. Nod y Strategaeth yw hybu cydlyniant cymunedol cryfach yng Nghymru yn ogystal â delio gydag ystod eang o faterion, gyda rhai ohonynt yn ceisio lleihau tensiynau cymunedol a'r troseddau casineb sy'n deillio o hynny. Mae cyhoeddi'r Strategaeth hefyd yn gam yng Nghynllun Gweithredu Troseddau Casineb Llywodraeth y DU sy'n amlinellu sut i fynd i'r afael â throseddau casineb a gwella'r cymorth i ddioddefwyr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Cymru Ddiogelach a heddluoedd Cymru er mwyn sefydlu gwasanaeth cofnodi ar-lein a fydd yn mynd i'r afael â'r ffaith nad yw troseddau casineb yn cael eu cofnodi bob tro yng Nghymru.

### Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor

23. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

Carwyn Jones AC - Prif Weinidog Cymru

Ieuan Wyn Jones AC - Dirprwy Brif Weinidog Cymru

**Pwynt Cyswllt**: Gill Lambert, Is-Adran Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth, ffôn 02920 826572.